**Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith**
**—**
**Climate Change, Environment, and Infrastructure Committee**

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddHinsawdd@senedd.cymru
senedd.cymru/SeneddHinsawdd
0300 200 6565
**—**
**Welsh Parliament**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddClimate@senedd.wales
senedd.wales/SeneddClimate
0300 200 6565

Jack Sargeant AS
Cadeirydd
Y Pwyllgor Deisebau

11 Tachwedd 2021

Annwyl Jack,

P-05-1181 Mae treillio ar wely'r môr yn lladd ein bywyd gwyllt morol… Rhowch y gorau i chwalu'n moroedd! Gohebiaeth – Deisebydd at y Pwyllgor

Diolch am eich llythyr, dyddiedig 8 Hydref 2021, ac am dynnu ein sylw at y ddeiseb uchod.

Mae'r Pwyllgor wrthi'n cytuno ar ei flaenoriaethau ar gyfer y Chweched Senedd ac mae eisoes wedi tynnu sylw at yr amgylchedd morol, gan gynnwys Ardaloedd Morol Gwarchodedig, fel maes o ddiddordeb.

Rydym wedi cytuno i wneud darn byr o waith ynglŷn â rheoli'r amgylchedd morol i fynd ar drywydd amrywiaeth o faterion a godwyd gan randdeiliaid mewn ymateb i'n hymgynghoriad ar flaenoriaethau'r Chweched Senedd. Er mwyn llywio'r gwaith hwn, byddwn yn cynnal sesiynau tystiolaeth lafar gyda rhanddeiliaid yn ein cyfarfod ddydd Iau 9 Rhagfyr 2021. Bydd y sesiwn yn rhoi cyfle i'r Pwyllgor drafod y mater a godwyd gan y deisebydd gyda rhanddeiliaid.

Yn dibynnu ar ganlyniad y sesiwn, efallai yr hoffem ysgrifennu at y Gweinidog i drafod materion sy'n codi ymhellach.

Byddwn yn hapus i rannu unrhyw faterion sy'n codi o'r sesiwn gyda chi.

Cofion,

Llyr Gruffydd AS,
Y Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith

Croesewir gohebiaeth yn y Gymraeg a'r Saesneg.

We welcome correspondence in both English and Welsh